# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 03.10.2023

Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Elfed Roberts, Gareth Jones

1. Ymddiheurladau: Lynda Massarelli

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. EH, HP

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.488 Gellilydan (Bron Gelli): Cyrbau, disgwyl ymateb gan ADRA. Clerc i ail-gysylltu. (cadw mlaen).

3.489 Cae Chwarae Maentwrog: Hysbyseb wedi ei roi fyny – dim ymateb/diddordeb wedi ei dderbyn.

3.490 Cae Chwarae Gellilydan – Cyfarfod safle i'w drefnu gyda Adrian Williams (Cyngor Gwynedd) ac Michael Evans (Adra). Clerc wedi cysylltu, disgwyl ymateb.

3.491 Tir ger Gors Fach – gwaith atgyweirio angen ei wneud i'r ffens, Elfed Roberts am gysylltu a Chyngor Gwynedd. (cadw mlaen).

3.492 National Grid: grantiau ar gael. Bydd angen sefydlu pwyllgor ar wahân cyn gwneud cais.

3.493 Parcio Gellilydan: Clerc wedi cysylltu a PC Elliw Roberts am adroddiad yn dilyn cyfarfod 17/05/23, dal i ddisgwyl ymateb.

3.494 Bryn Arms, Gellilydan: Difrod dŵr – Lluniau wedi eu hafnon ymlaen at Alun Osbourne Evans, disgwyl ymateb.

3.495 Coed Gors Fach - Clerc wedi bod mewn cyswllt gyda Ifan Thomos o Chyngor Gwynedd, disgwyl ymateb.

3.496 Gofeb – Iechyd a Diogelwch – MW am drefnu cyfarfod gyda Ifan Williams.

3.497 Maentwrog / Gellilydan – materion sydd wedi eu codi gyda Adran Priffyrdd y Cyngor - ER am drefnu cyfarfod gyda Adrian Williams, adroddiad i ddilyn.

4. Materion i'w trafod ar y pryd

4.201 Diogelwch A470 – Cyfarfod Un-Llais. Clerc i gadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn eilio a chefnogi cais Cyngor Trawsfynydd. Llythyr i'w anfon ymlaen at ER.

4.202 Neuadd y Pentref – Cyfarfod Brys 5ed o Fedi – i'w drafod ymhellach ar ôl derbyn cofnodion y cyfarfod.

4.203 Allianz – Cytunwyd i adnewyddu y polisi. Bydd angen ail-edrych ar ddyfynbrisiau am y flwyddyn 2024 / 2025.

4.204 Infois Parish on Line – ebost amheus wedi ei dderbyn, cytunwyd i'w anwybyddu.

4.205 Dref Werdd (Bioamrywiaeth) - – HP yn cynreichioli'r cyngor hefo trafodaeth gyda

D. M. Williams



14-11-2023

Megan o'r Dref Werdd.

4.206 Sul y Cofio - Torch i'w gosod gan Mary Hughes o'r Eglwys

4.207 Diogelu Data / Buddiannau'r Cynghorwyr – clerc wedi cysylltu ac Un Llais - cadarnhâd wedi ei dderbyn, nid oes rhaid i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru gadw cofrestr o fuddiannau.

5. Ariannol

5.134 Cyfrif Cadw: £220.71

5.135 Cyfrif Cyfredol: £5446.56

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.136 Allianz - £508.20

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r ceisidau canlynol:

6.60 NP5/73/3318 The Boathouse, Coed Llyn y Garnedd, Maentwrog - Gosod paneli solar ar y ddaear, a gosod pwmp gwres ffynhonnell aer.

6.61 NP5/73/2875 Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd – Atgyweirio, gwella ac ymestyn y man cadw.

6.62 NP5/73/LB321A – Station House, Tan y Bwlch - Caniatâd Adeilad Rhestredig i ail-doi eiddo presennol a darparu goleuadasu lefel isel I'r llwybr mynediad.

7. Gohebiaeth

226. Un Llais – Hyfforddiant

227. Menter Iaith Gwynedd - Holiadur

228. Holiadur Cyngor Cymunedol

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

8.24 Cyfarfod Llywodraethwyr yr Ysgol - Adroddiad wedi dderbyn gan GJ – Cynnig i ffedereiddio'r dair ysgol sef Ysgol Edmwnd Pryd, Gellilydan, Ysgol Bro Cynfal, Llan Ffestiniog ac Ysgol Gynradd Tanygrisiau.

9. Mynwent Dwyryd

9.15 Cyfrif y Fywent: £15559.92

9.16 Mynwent Dwyryd – Safle parcio - copi o'r cynllun i'w anfon ymlaen at Mr Richard Williams.

9.17 Martin Kerr - trefnu cyfarfod safle.

9.18 Clerc i gysylltu a Richard Jones i drefnu dorri gwair y Fynwent.

10, Dyddiad cyfarfod nesaf

D.M. [signature]
14-11-2023

Tachwedd 14 eg, 2023 am 6.30, ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog